# Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych

## Crynodeb Gweithredol

# Mehefin 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. This document is available in Welsh.

# Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych: Crynodeb Gweithredol

## Cynnwys


Cyflwyniad 3

Cwmpas 3

1. Gyngor Di-Garbon Net 3
2. Cyngor Ecolegol Gadarnhaol 4
3. Creu gostyngiad o 35% mewn allyriadau cadwyni cyflenwi 4
4. Lleihau Allyriadau Carbon a Chynyddu Amsugniad Carbon ar draws Sir Ddinbych 5
5. Cefnogi Adferiad Natur ar draws Sir Ddinbych 5
6. Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid Hinsawdd 5

Newidiadau a Chamau Gweithredu 5

1. Cyngor Di-Garbon Net 6
2. Cyngor Ecolegol Gadarnhaol 6
3. Creu gostyngiad o 35% mewn allyriadau cadwyni cyflenwi 7
4. Lleihau Allyriadau Carbon a Chynyddu Amsugniad Carbon ar draws Sir Ddinbych 7
5. Cefnogi Adferiad Natur ar draws Sir Ddinbych 7
6. Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid Hinsawdd 7

Cadw at ein Huchelgais 8

# Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych: Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Y ddogfen hon yw Fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 o’r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych a fabwysiadwyd yn 2021. Mae'n sôn wrthych chi am amcanion Carbon Sero Net ac Ecolegol Gadarnhaol y Cyngor a'r targed o 35% o ostyngiad yn allyriadau’r gadwyn gyflenwi a’r tasgau yr ydym ni am geisio eu cyflawni i gyrraedd ein nod ar gyfer 2030. Yn ogystal â gwaith y Cyngor ym maes gweithredu dros yr hinsawdd ac adfer natur ar draws Sir Ddinbych a’i nod i gynyddu cydnerthedd risg hinsawdd. Mae’r ddogfen yn dweud wrthych am y cynnydd a wnaed yn y 3 blynedd gyntaf ers 2021 a’r cynllun ar gyfer y 6 blynedd sy’n weddill hyd at 2030. Mae enw’r ddogfen wedi newid yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych 2021/22-2029/30.

## Cwmpas

Gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019. Mewn ymateb i hynny ac erbyn 31 Mawrth 2030, nod y Cyngor yw dod yn:

### 1. Gyngor Di-Garbon Net

- Mae hyn yn golygu bod yr allyriadau tunelli o garbon gan y cyngor drwy adeiladau, fflyd, gwastraff, staff sy’n cymudo, goleuadau stryd a theithio ar gyfer busnes yn gyfartal neu’n llai na’r tunelli o garbon sy’n cael ei amsugno gan y cyngor drwy laswelltir a choetir sy’n eiddo ac yn cael eu gweithredu ganddo.

- Mae’r Cyngor yn anelu i leihau ei allyriadau 55% erbyn 2030 (o’i gymharu â gwaelodlin 2019/20). Mae’n 8.3% o ostyngiad ar hyn o bryd (2022/23).

- Mae’r Cyngor yn anelu i gynyddu ei atafaeliad 203% erbyn 2030 (o’i gymharu â gwaelodlin 2019/20). Mae’n 25% o gynnydd ar hyn o bryd (2022/23).

- Er bod cynnydd da wedi’i wneud mewn gostwng carbon ar gyfer Gwastraff, Teithio ar gyfer Busnes a Goleuadau Stryd; mae angen gwneud mwy o waith mewn

Adeiladau, Fflyd, Staff yn Teithio ac Atafaeliad os ydym am gyrraedd ein nod Di-garbon Net erbyn 2030.

## 2. Cyngor Ecolegol Gadarnhaol

• Mae hyn yn golygu y bydd yna fwy o dir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y cyngor yn y categorïau uchaf o gyfoeth rhywogaethau ac nid yn y categorïau isaf o gyfoeth rhywogaethau.

• Mae'r ganran o dir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y cyngor yn y categorïau uchaf o gyfoeth rhywogaethau yn 42% (2022/23) ar hyn o bryd ac mae hynny angen bod yn 51% erbyn 2030 er mwyn i'r Cyngor gyrraedd y nod hwn.

• Mae cynnydd derbyniol yn cael ei wneud i gyflawni'r nod hwn gyda phrosiectau fel ein prosiectau Dolydd Blodau Gwyllt a Chreu Coetir/Man Natur yn golygu ein bod ar hyn o bryd ar y trywydd i fod yn gyngor mwy cadarnhaol o ran natur erbyn 2030.

## 3. Creu gostyngiad o 35% mewn allyriadau cadwyni cyflenwi

• Mae hwn yn 'darged gostyngiad' i'r cyngor gan nad yw allyriadau cadwyn gyflenwi'r Cyngor wedi eu cynnwys yn ei nod Di-garbon Net.

• Mae'r Cyngor yn anelu i leihau ei allyriadau 35% erbyn 2030 (o'i gymharu â gwaelodlin 2019/20). Mae'n 24.9% o gynnydd ar hyn o bryd (2022/23).

• Mae dull anghywir o gyfrifo sy'n cael ei ddefnyddio gan bob sector cyhoeddus yng Nghymru yn amharu ar fonitro cynnydd i leihau allyriadau o'r ffynhonnell hon. Mae gwaith yn parhau yn genedlaethol i gadarnhau dull amgen a mwy cywir o gyfrifo.

Mae'r fersiwn a ddiweddarwyd o Flwyddyn 3 o'r ddogfen hon wedi cynyddu ei gwmpas i hefyd gynnwys sut mae'r Cyngor yn gallu defnyddio ei ddylanwad yn y meysydd canlynol:

# Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych: Crynodeb Gweithredol

## 4. Lleihau Allyriadau Carbon a Chynyddu Amsugniad Carbon ar draws Sir Ddinbych

- Amcangyfrifir bod y Cyngor yn gallu dylanwadu ar oddeutu trydedd rhan o allyriadau ardal drwy siapio lle ac arweinyddiaeth.

## 5. Cefnogi Adferiad Natur ar draws Sir Ddinbych

- Rydym yn gobeithio dylanwadu ar weithredoedd i wella bioamrywiaeth ar draws y sir drwy weithio gyda a chefnogi ein trigolion a'n cymunedau i weithredu.

Fodd bynnag, hyd yn oed pe baem yn gostwng allyriadau'n sylweddol dros y ddegawd nesaf, mae cynhesu pellach yn anochel, ac mae'n rhaid i ni addasu i ymdrin â'r newidiadau hinsawdd yr ydym eisoes yn eu profi a'r newidiadau pellach na ellir eu hosgoi mwyach. Mae'r fersiwn Blwyddyn 3 a ddiweddarwyd o'r ddogfen hon yn cynnwys manylion am:

## 6. Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid Hinsawdd

- Mae'r gwaith hwn yn bwysig er mwyn cynyddu gwytnwch y Cyngor a'n cymuned i'r effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes wedi'u sefydlu.

## Newidiadau a Chamau Gweithredu

Er mwyn cyflawni ein nod carbon sero net erbyn 2030 bydd angen i'r Cyngor addasu sut mae'n mynd ati i gyflawni'r amrywiaeth eang o waith a thasgau sy'n ofynnol gennym ni gan Lywodraeth Cymru, ein partneriaid a'n cymunedau.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni camau a phrosiectau allweddol ers 2021 i gyflawni ei amcanion 2030 sydd wedi eu hamlinellu yn y Rhagair ac o fewn yr Atodiadau Technegol.

O dan bob un o'r 6 maes cwmpas craidd, mae dros 140 o newidiadau a chamau wedi eu rhestru yr ydym yn dymuno eu cyflawni os/pan fydd yr adnoddau ar gael i ni. Ein nod yw

gweithredu cymaint o'r rhain â phosibl dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth. Maent yn amrywio o newid polisi a phroses i gamau a phrosiectau a dargedwyd. Rhoddir rhai enghreifftiau isod:

## 1. Cyngor Di-Garbon Net

- Enghraifft o newid polisi neu broses a nodwyd er mwyn cyfrannu at gyflawni ar y nod hwn yw datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd i sicrhau bod blaenoriaethau lleol sy'n codi o amgylch newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi cynllunio lleol a gwneud penderfyniadau.

- Enghraifft o gam gweithredu a dargedwyd neu brosiect a nodwyd i leihau carbon ar draws adeiladau, fflyd, gwastraff, staff yn teithio, goleuadau stryd a theithio ar gyfer busnes yw parhau i weithredu'r polisi disodli Cerbydau Trydan.

- Enghraifft o gam gweithredu a dargedwyd neu brosiect a nodwyd i gynyddu amsugno carbon ar draws tir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y cyngor yw parhau i weithio gydag ysgolion i nodi tir ar gyfer plannu coed a chyflwyno blodau gwyllt ar gyfer gwella bioamrywiaeth ac atafaeliad carbon ac i greu gwarchodfa natur 70 erw newydd yn Llanelwy, adfer cynefinoedd a chefnogi bywyd gwyllt prin a phwysig.

## 2. Cyngor Ecolegol Gadarnhaol

- Enghraifft o newid polisi neu broses a nodwyd i gyfrannu at gyflawni'r nod hwn yw i ymgorffori'r archwiliad cydymffurfio ecolegol ar gyfer ceisiadau cynllunio i sicrhau bod lliniaru, cydadferiad a gwella yn cael ei gynnwys.

- Enghraifft o gam gweithredu wedi'i dargedu neu brosiect a nodwyd i gynyddu'r ganran o dir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y cyngor yn y cynefinoedd gyda'r cyfoeth uchaf yw i barhau â'r prosiect dolydd blodau gwyllt (heb eu torri) mewn ardaloedd sy'n eiddo ac yn cael eu rheoli gan y cyngor.

# Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych: Crynodeb Gweithredol

## 3. Creu gostyngiad o 35% mewn allyriadau cadwyni cyflenwi

- Enghraifft o newid polisi neu broses a nodwyd i gyfrannu at gyflawni'r nod hwn yw sicrhau bod unrhyw Fframweithiau Allanol a ddefnyddir ar gyfer caffael yn cynnwys gofynion cadarn o ran Lleihau Carbon a Chynaliadwyedd.

- Enghraifft o gam gweithredu a dargedwyd neu brosiect a nodwyd i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi yw gofyn am Gynlluniau Lleihau Carbon fel rhan o'r holl dendrau dros £XX (mae'r gwerth y cytunir arno yn orfodol ar gyfer pob contract dros £5 miliwn).

## 4. Lleihau Allyriadau Carbon a Chynyddu Amsugniad Carbon ar draws Sir Ddinbych

- Enghraifft o ffordd a nodwyd i ddefnyddio ein dylanwad i gefnogi'r nod hwn yw dyfeisio a gweithredu cynllun i gyflawni SAP 75 tai erbyn 2030 ynghyd â Tharged Llwybr Ynni.

## 5. Cefnogi Adferiad Natur ar draws Sir Ddinbych

- Enghraifft o ffordd a nodwyd i ddefnyddio ein dylanwad yw cefnogi'r nod hwn i gyflawni gwelliant a datblygu prosiectau ar gyfer rhandiroedd Cyngor Sir Ddinbych a pharhau i gydlynu Bionet, Partneriaeth Natur Lleol Gogledd Ddwyrain Cymru, cefnogi a hyrwyddo sefydliadau partner wrth gynllunio a gweithredu gwaith cadwraeth natur.

## 6. Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid Hinsawdd

- Enghraifft o newid polisi neu broses a nodwyd i gyfrannu at gyflawni'r nod hwn yw datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Sir Ddinbych newydd ar gyfer y sir

- Enghraifft o gam gweithredu neu brosiect wedi'i dargedu a nodwyd i gynyddu gwytnwch y Cyngor a'n cymuned i effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes wedi 'sefydlu' yw

darparu rheolaeth parth arfordirol ar arfordir naturiol Sir Ddinbych a gwaith i gynnwys: adfer twyni tywod, Cynllun Môr-wenoliaid Bach a chreu cynefinoedd.

## Cadw at ein Huchelgais

Rydym yn gwybod er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol a wnaed gan brosiectau, nid yw cyflymder newid ar y raddfa angenrheidiol i gwrdd â'n targedau 2030 ar hyn o bryd mewn rhai rhannau o'r rhaglen, yn arbennig mewn adeiladau, defnydd tir a staff yn teithio. Bydd y cyfyngiadau ariannol yr ydym ni, ynghyd â holl gynghorau lleol eraill yn wynebu yn effeithio ar ein gallu i gyflawni ein huchelgais yn y blynyddoedd i ddod.

Ni fydd cyflawni'r nodau ar gyfer 2030 yn hawdd, ond yr ydym yn cynnal ein huchelgais ac nid ydym wedi addasu'r targedau, er gwaethaf yr her, wrth i ni symud ymlaen i 3 blynedd nesaf y strategaeth.

Mae ein gwaith i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac adfer natur yn cynnwys nifer o fuddion, gyda chamau i leihau carbon, yn aml hefyd yn lleihau costau i'r cyngor a gwaith natur hefyd yn creu gofod ar gyfer iechyd a lles, addysg a hamdden ar gyfer ein cymunedau.

Mae'r gost amcangyfrifedig o gyflawni ein hamcanion hyd at 2030 yn cael ei amcangyfrif i fod o leiaf £48 miliwn. Nid yw'r cyngor yn gallu darparu'r holl arian hwn ei hun a byddwn angen adeiladu a gwella ein llwyddiant dros 3 blynedd cyntaf y strategaeth ble mae 36% o gyfanswm gwariant cyfalaf wedi cael ei gynnwys drwy grant allanol. Bydd y rhaglen yn anelu i gyfalafu ar gyfleoedd cyllid allanol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Genedlaethol a chefnogi cyrff ynghyd â chynyddu cyfleoedd ar gyfer dulliau ariannu cymunedol a masnachol a gwaith i ddatblygu prosiectau 'parod i fynd' pan fydd cyfleoedd yn codi.

Rydym yn parhau wedi ymrwymo i fynd mor bell ag y gallwn ac mor gyflym ag y gallwn i leihau carbon, cynyddu amsugniad carbon a chefnogi adferiad natur yn y Cyngor ac ar draws Sir Ddinbych ar gyfer lles ac amddiffyn ein cymunedau presennol, staff a phartneriaid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.